



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

13^{fed} o Fedi 2013

Yr Ystafell Bwyllgor

Yn Bresennol

Ioan Evans (IE) – Llywydd UMABer, Cadeirydd & Ymddiriedolwr
Mared Ifan (MI) – Llywydd UMCA & Ymddiriedolwraig
Laura Dickens (LD) – Swyddog Cymorth Myfyriwr UMABer & Ymddiriedolwraig
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg UMABer & Ymddiriedolwraig
Olivia Prewett (OP) – Swyddog Gweithgareddau UMABer & Ymddiriedolwr
Stephen Meachem (SM) – Ymddiriedolwr Allanol UMABer
Elfyn Jones (EJ) – Ymddiriedolwr Allanol UMABer
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMABer
Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMABer
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Aelodaeth a Gwasanaethau UMABer

Yn gwasanaethu yn y cyfarfod

Annmarie Evans – Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr UMABer.

1. Ymddiheuriadau am absenoldebau

Joshua James (Ymddiriedolwr israddedig) a Christopher Lloyd-Jones (Ymddiriedolwr Ôl-raddedig)

2. Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 28ain o Fehefin 2013

Cofnodwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol ar yr 28ain o Fehefin 2013 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Cymeradwywyd gan y bwrdd

3. Briff gan y Cadeirydd

Croesawodd IE bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr Ymddiriedolwr Allanol newydd Elfyn Jones a Catrin Hopkins, Swyddog Cyllid UMPA. Esboniodd ei fod wedi bod yn haf prysur yn gweithio ar strwythur democrataidd yr undeb gyda AM a Dan Meehan, a benodwyd yn ddiweddar fel ein Swyddog Cynorthwyo Ymgyrchoedd a Democratiaeth. Nododd bod y paratodau ar gyfer etholiadau'r hydref yn dda ac roedd yn ddiolchgar i'r fîm o staff sydd gennym ar hyn o bryd am eu hamynedd a'u gwaith diwyd.

4. Adroddiadau Swyddogion

Cyflwynwyd yn flaenorol Adroddiadau blynyddol y Swyddogion i'r Bwrdd. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau ynghylch yr adroddiadau.

5. Adroddiad Cyllid

Amlinellodd CH yn gryno gyfrifon y Rheolaeth ar gyfer mis Awst. Esboniodd bod costau cyflogau yn uwch ym mis Awst o achos Cofrestriad Pensiwn Awtomatig y Brifysgol. Hefyd, cyflawnodd y Brifysgol gwaith trydanol angenrheidiol nas clustnodwyd amdano.

Esboniodd CH bod y costau ar gyfer y Cwmni Masnachu yn uchel oherwydd y pryniannau a wnaed yn ystod y mis yn ymwneud â stoc newydd ac unigolion ar gyfer y digwyddiadau.

Nododd EJ y byddai'n disgwyl gweld fod hwn wedi'i adlewyrchu yn y gyllideb yn defnyddio tueddiadau'r flwyddyn flaenorol. Esboniodd JG na pharatowyd y gyllideb tan yn ddiweddar iawn a sicrhodd y byddai rhagolygon llif arian yn cael eu hanfon at y bwrdd yn gyson.

Camau Gweithredu – CH

6. Adroddiad Gwasanaethau Aelodaeth

Amlinellodd AM ei adroddiad a gyflwynwyd o'r blaen ganddo. Cafwyd pryderon ynghylch yr ymgynghori a wnaed gyda'r Swyddogion pan drafododd y cynllun gweithredu. Penderfynwyd y byddai AM yn cynnal ymgynghoriad/cyfarfod gyda'r Swyddogion.

Camau Gweithredu - AM

7. Adroddiad y Prif weithredwr

Crynhodd JG ei adroddiad a gyflwynwyd o'r blaen ganddo. Roedd ei adroddiad yn trafod Cyllidebau, Datblygiadau Newydd, Trwyddedu, Pobl ac amcanion y Brif Weithredwr.

Nododd IE bod angen i ni edrych ar y polisi derbyn yn dilyn derbyn cais trwyddedu fel y cedwir at y polisi myfyriwr/ymwelydd myfyriwr

Camau Gweithredu – JG/IE

8. Adolygiad DPA

Cyflwynwyd y DPA ar gyfer y flwyddyn 2013/2014 i'w hystyried gan y Bwrdd. Gwnaed ychydig o ddiwygiadau gan y Bwrdd a chymeradwywyd y DPA canlynol:

- Sicrhau bod lleiafswm o £23,000 o'r gyllideb dros ben
- Sicrhau presenoldeb mewn etholiadau Swyddogion Llawn-amser o 24%
- Adolygu swyddogaethau a phortffolios swyddogion myfyrwyr
- Darparu hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr swyddogion newydd, disgrifiadau swydd a chytundebau cyflogaeth
- Sicrhau presenoldeb dirprwyon llawn yng Nghynadleddau UCM Cymru a UCM
- Gwella lefel effaith Undeb y Myfyrwyr i o leiaf 64% gyda'n harolwg mis Chwefror
- Llwyddo i ennill achrediad gwirfoddoli
- Datblygu rhaglenni hyfforddiant i Staff-Myfyrwyr gyda chofnodion
- Datblygu cynllun cyflogadwyedd 'Gwobr Aber'
- Sicrhau ymrwymiadau/cynlluniau manwl gan y Brifysgol i ailddatblygu adeilad Undeb y Myfyrwyr
- Sicrhau achrediad Dim Goddefgarwch i Aflonyddwch Rhywiol
- Ailddatblygu'r Underground a'r Brif Ystafell (tymor byr 2013/14)
- Cyhoeddi'r 2il arolwg Llety

- Cynyddu lefel y cyfranogiad mewn cymdeithasau, chwaraeon a phrosiectau gwirfoddol i o leiaf 38%

Cytunwyd y byddai JG yn diwygio'r DPA fel y ceir uchod a'u hanfon i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Ar ôl eu cymeradwyo, byddant yn ymddangos ar ein gwefan.

Camau Gweithredu – JG

9. Cofrestr Risg

Darparodd JG ddogfen gofrestr risg i'r grŵp o'r blaen a gofynnodd iddynt am eu barn.

Cytunwyd y byddai JG yn edrych ar Reoliad Adran 3, Risg rhif 2 – *Tudalennau cyfryngau cymdeithasol sydd heb eu rheoleiddio, a weinyddir gan grwpiau myfyrwyr y mae'r Undeb yn eu cydnabod a all arwain o bosib at sylwadau difriol, enllibus neu sylwadau/gwybodaeth sydd heb ei awdurdodi sydd yn niweidio enw da Undeb y Myfyrwyr.*

Camau Gweithredu – JG

Nododd SM y byddai'n edrych ar ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â hwn a'i anfon at JG.

Camau Gweithredu – SM

10. Siop

Ar ôl trafodaeth hir ynghylch cynigion y siop, penderfynwyd y dylid tynnu Londis o'r tabl a derbyn cynnig Spar.

Cytunwyd hefyd y byddai CH yn cwblhau cyfrifiad ar dreth i benderfynu a fyddai'n well i brydlesu neu brynu offer arfaethedig. Cytunwyd hefyd y byddai CH yn darparu ffigurau ar fasnachu ac ar y llif arian.

Camau Gweithredu – CH

11. Pwyllgor Tâl

Penodwyd SM yn Gadeirydd y Pwyllgor.

Cymeradwywyd gan y bwrdd.

12. Contract Digwyddiadau Allanol

Cafwyd trafodaeth gan y bwrdd ynghylch y Contract Digwyddiadau Allanol. Nododd y Bwrdd y dylid cyflwyno unrhyw gontractau sydd wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i'r bwrdd yn y dyfodol naill ai trwy e-bost neu yn ystod y cyfarfodydd.

13. Disgrifiad Swydd y Prif Weithredwr a DPA

O ran y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, cytunwyd y byddai JG yn ychwanegu datblygu system gyflog lle y cynhwysir cynyddiadau ond y dyfarnir ar sail perfformiad. JG i ddiwygio ei ddangosyddion perfformiad allweddol a'u hanfon at y Bwrdd i'w cymeradwyo.

Camau Gweithredu – JG

U.F.A.

Cytunwyd y byddai Emily Cannon yn parhau yn ei swydd fel y Dirprwy Swyddog Canlyniadau.

Cytunwyd – gan y bwrdd

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 22ain o Dachwedd, 10yb, yn yr Ystafell Bwyllgor